



County Hall
Cardiff
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2000

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2000

AGENDA

- Pwyllgor** PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL
- Dyddiad ac amser y cyfarfod** DYDD MAWRTH, 1 HYDREF 2019, 4.30 PM
- Lleoliad** YSTAFELL BWYLLGOR 4 - NEUADD Y SIR
- Aelodaeth** Cynghorydd Patel (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Boyle, Derbyshire, Owen Jones, Lancaster, Jackie Parry, Owen, Wong a/ac Wood
- | | Tua Amser. |
|---|------------|
| 1 Ymddiheuriadau am Absenoldeb | 4.30 pm |
| Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb. | |
| 2 Datgan Buddiannau | |
| I'w gwneud ar ddechrau'r Eitem Agenda dan sylw, yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau. | |
| 3 Cofnodion (Tudalennau 5 - 12) | |
| Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Medi 2019 fel cofnod cywir. | |
| 4 Y Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd – Adroddiadau Perfformiad Chwarter 3 ac Alldro 2018/19 (Tudalennau 13 - 76) | 4.35 pm |
| Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i'r Pwyllgor ystyried perfformiad y Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd sy'n berthnasol i gylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol. | |
| 5 Rhwydwaith Gwres Ardal Caerdydd – Diweddariad i Aelodau (Tudalennau 77 - 104) | 5.35 pm |
| Diweddariad i aelodau i asesu'r cynnydd a wnaed tuag at sefydlu | |

Rhwydwaith Gwres Ardal Caerdydd. Yn benodol bydd yr eitem yn ystyried pa mor agos yw'r Cyngor o ran cytuno ar yr achos busnes terfynol, ynghyd â'r trefniadau caffael angenrheidiol sy'n ofynnol i ddarparu'r cynllun.

6 Rhaglen Ailarwynebu Priffyrdd – Nodyn Briffio Aelodau 6.15 pm
(*Tudalennau 105 - 122*)

Nodyn briffio aelodau a fydd yn rhoi'r cyfle i'r Pwyllgor roi sylwadau ar y Rhaglen Ailarwynebu Priffyrdd Drafft ar gyfer 2019/20.

7 Y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol – Rheoli Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd Naturiol yng Nghaerdydd 6.35 pm

Eitem i roi diweddariad i Aelodau ar yr ymarfer gorchwyl a gorffen, ac i ystyried cynnwys yr adroddiad drafft cyfredol.

8 Eitemau Brys (os oes rhai) 6.55 pm

9 Y Ffordd Ymlaen 7.00 pm

Adolygu'r dystiolaeth a'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod y broses o ystyried pob eitem agenda, cytuno ar sylwadau, arsylwadau a phryderon Aelodau i'w hanfon i'r Aelod Cabinet perthnasol gan y Cadeirydd, a nodi eitemau i'w cynnwys ym Mlaenraglen Waith y Pwyllgor.

10 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Dydd Mawrth 5 Tachwedd 2019 am 4.30pm yn Ystafell Bwyllgor 4, Neuadd y Sir.

Davina Fiore

Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol

Dyddiad: Dydd Mercher, 25 Medi 2019

Cyswllt: Graham Porter, 02920 873401, g.porter@caerdydd.gov.uk

GWE-DARLLEDU

Caiff y cyfarfod hwn ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw a/neu yn olynol trwy wefan y Cyngor. Caiff yr holl gyfarfod ei ffilmio, heblaw am eitemau eithriedig neu gyfrinachol, a bydd y ffilm ar gael ar y wefan am 12 mis. Cedwir copi o'r recordiad yn unol â pholisi cadw data'r Cyngor.

Gall aelodau'r cyhoedd hefyd ffilmio neu recordio'r cyfarfod hwn

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a gaiff y cyfarfod cyfan neu ran ohono ei ffilmio. Fel rheol, ni chaiff ardaloedd y cyhoedd eu ffilmio. Fodd bynnag, wrth fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r ardal gyhoeddus, mae aelodau'r cyhoedd yn cydsynio i gael eu ffilmio ac y defnyddir y lluniau a recordiadau sain hynny o bosibl at ddibenion gwe-ddarlledu a/neu hyfforddi.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch gwe-ddarlledu cyfarfodydd, cysylltwch â'r Gwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau ar 02920 872020 neu e-bost [Gwasanethau Democrataidd](#)